# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-08-09 Papur 2: 19 Mai 2009

### Deisebau newydd

Mae’r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am bob un o’r deisebau a gafodd eu trafod am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 19 Mai.

### (i) P-03-181 Anemia Dinistriol

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod nad yw’r diagnosis a’r driniaeth o Anemia Dinistriol yn ystyried anghenion unigol cleifion ac mae hyn yn aml yn cael effaith niweidiol ar brofiad y claf o reoli’r cyflwr. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gorchymyn bod diagnosio, monitro a thrin Anemia Dinistriol yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn diogelu urddas a hawliau dioddefwyr y clefyd.

### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan The Pernicious Anaemia Society a chafwyd 20 o lofnodion.

### (ii) P-03-200 Camlas Morgannwg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi’r awydd i greu llwybr hanesyddol Camlas Morgannwg o Ferthyr i Fae Caerdydd gan nodi lleoliadau o bwys ar y ffordd, ynghyd â safleoedd hanesyddol eraill o fewn cyrraedd i’r Gamlas e.e. Llong Ysbyty Hamadryad, fel modd o annog diddordeb yn hanes y rhanbarth a thwristiaeth a darparu llwybr cerdded a beicio diddorol a heriol.

#### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan John Williams a chasglwyd 14 o lofnodion.  Mae’r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy’n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi’i atodi fel rhan o PET(3)-08-09 Papur 2A.

### (iii) P-03-205 Cadwch Marchnad Da Byw’r Fenni

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gadw cymeriad hanesyddol y Fenni fel tref farchnad drwy beidio â diddymu na diwygio Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854 i 1871, gan felly gadw'r holl fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sydd ynghlwm â bod yn dref farchnad.

#### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Barry Greenwood a chasglwyd 4757 o lofnodion.  Mae’r prif ddeisebwr wedi paratoi datganiad ategol sy’n amlinellu cefndir y ddeiseb, ac sydd wedi’i atodi fel rhan o PET(3)-08-09 Paper 2A.

### (iv) P-03-218 Achubwch Bentref Gwenfô

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried unrhyw benderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar gan Ove Arup a all arwain at wneud Port Road, sy'n mynd trwy ochr ddwyreiniol pentref Gwenfô, yn ffordd ddeuol.

#### Y cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Campbell a chasglwyd 789 o lofnodion.

#### (v) P-03-220 Gostwng y terfyn cyflymder ar ffordd yr A40 ger y Fenni

### Geiriad y ddeiseb

Deiseb i Gynulliad Cymru:

Er mwyn i gerddwyr fedru cerdded yn ddiogel yr ydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar ffordd yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Plas Derwen Way yn cael ei ostwng i 30 mya.

**Y cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan y Cynghorydd Maureen Powell a chasglwyd 220 o lofnodion. Mae'r prif ddeisebwr wedi cyflwyno copïau o ohebiaeth flaenorol a gafodd â llywodraeth Cymru fel gwybodaeth gefndir yn ogystal â map bras o'r ardal y cyfeirir ati yn y ddeiseb, ac mae hwn ynghlwm fel rhan o PET(3)-08-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2009**